**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | Y V Jardine | A J Jeffery |
| J W Jones | E T Kirchner | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Heafy yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gymunedau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Jon Franklin | Rheolwr Cydlynu Ardaloedd Lleol |
| Kelly Gillings | Rheolwr Rhaglen, Partneriaeth Gorllewin Morgannwg |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithaso |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Helen St John | Pennaeth y Gwasanaethau Integredig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams a/ac C L Philpott

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Chris Holley a Jeff Jones gysylltiad personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Y diweddaraf am Raglen Drawsnewid Gorllewin Morgannwg

Roedd Kelly Gillings, Rheolwr Rhaglen yn bresennol i roi'r diweddaraf i'r Panel ar gynnydd gan gynnwys y cefndir, trefniadau llywodraethu, Cynllun Ardal Gorllewin Morgannwg 2023-27, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu.

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y Panel ynghylch sut mae'r Bartneriaeth yn bwriadu annog gwirfoddolwyr yn y gymuned. Clywyd bod staff o fewn sefydliadau partner eisoes yn gweithio gydag unigolion sydd am wirfoddoli. Yn ogystal, mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yn datblygu fframwaith gyda phobl sydd eisoes yn wirfoddolwyr i geisio annog rhagor o bobl i wneud hynny.
- Gofynnodd y Panel a oes modd rhagweld yr hyn y mae'r newid o ofalu am bobl mewn ysbytai i ofalu am bobl gartref yn ei olygu mewn gwirionedd o ran cost. Fe'u hysbyswyd, ar gyfer y mwyafrif o unigolion y mae angen gofal 24 awr arnynt, y byddai'r cynnig yn debygol o fod yn lleoliad mwy sefydliadol o hyd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd maent yn chwilio am fwy o gyfleoedd i gefnogi mwy o bobl, a allai gael eu galluogi'n well gyda gofal gartref.
- Gofynnodd y Panel am eglurhad am yr hyn a olygir gan 'wardiau rhithwir'. Clywyd mai datblygiad Bwrdd Iechyd ydyw ac nid wardiau ffisegol mohonynt. Maent yn gam i gefnogi pobl a chanddynt anghenion clinigol o hyd i ddod allan o'r ysbyty a darparu gofal parhaus gartref.
- Mae'r adroddiad yn nodi bod mwy o adnoddau wedi'u creu mewn gofal cartref gyda 1000 awr wedi'u credydu ond 600 awr wedi'u cynnwys. Gofynnodd y panel beth mae hyn yn ei olygu. Clywyd bod cynlluniau ar waith i gynyddu adnoddau gofal cartref yn fewnol a chyda darparwyr allanol. Fodd bynnag, ni ellid defnyddio pob awr ychwanegol i gefnogi pecynnau gofal newydd gan fod yn rhaid i rai darparwyr roi pecynnau gofal presennol yn ôl i'r cyngor, oherwydd prinder staff, ac roedd yn rhaid eu darparu o hyd.
- Roedd y Panel yn poeni bod mwy a mwy o gyfrifoldeb ar ofalwyr di-dâl sy'n gofalu am bobl yn eu cartref eu hunain. Clywyd bod ymgyrch tuag at gefnogi lefel fwy o annibyniaeth, ond mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd diwallu'r angen hwn mor gyflym ag yr hoffai ac, yn yr amgylchiadau hynny, mae gofalwyr di-dâl yn aml yn camu i'r adwy ac yn pontio'r bwlch.
- Nododd y Panel fod Cynllun Dementia i Gymru'n cael ei ddatblygu a gofynnwyd sut y gallai hyn fod yn wahanol i'r trefniadau cyfredol. Clywyd bod Safonau Dementia yn cael eu tynnu ynghyd gan lawer o unigolion sy'n gofalu am bobl â dementia ac o'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn y gorffennol. Dylai'r gwersi o bob cwr o Gymru lunio fframwaith i'w ddefnyddio i gefnogi unigolion yn fwy effeithiol. Teimlai'r Panel y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaeth ar ddementia, gan gynnwys astudiaethau achos mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu sesiwn friffio ar Ddementia at raglen waith y dyfodol.

## 6 Monitro Perfformiad

Rhoddodd Helen St John, Pennaeth y Gwasanaethau Cymunedol Integredig, grynodeb i'r Panel o'r adroddiad perfformiad ar gyfer mis Ionawr 2023 a rhoddodd ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol ym mis Mawrth 2023.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y panel a yw canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar ofal nyrsio'n dechrau gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffordd y caiff adnoddau eu dwyn ynghyd os yw un am ddim ar y GIG a'r llall yn ofal y mae'n rhaid talu amdano. Clywyd, fod trefniadau ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n dda ar gyfer y gwasanaethau cymunedol integredig, ac yn sefydlu'r gefnogaeth a'r gofal mwyaf priodol gan sicrhau nad yw'r dadleuon ariannol yn peri rhwystr. Nid yw'r Cyfarwyddwr yn credu y bydd y canllawiau diweddaredig yn gwella trefniadau'n fawr ac mae'n credu mai'r trefniant cronfa a rennir yw'r ateb go iawn.

## 7 Y diweddaraf am Gydlynu Ardaloedd Lleol

Roedd Hayley Gwilliam, Aelod y Cabinet dros Gymunedau a swyddogion perthnasol yn bresennol i ddiweddaru'r panel ar y mater hwn, gan dynnu sylw at berfformiad o'r ymagwedd hon yn 2022.

Pwyntiau Trafod:

- Roedd y Panel yn falch o glywed bod gan bob ardal yn Abertawe gydlynwyr ardaloedd lleol (CALlau) a bod y tîm CALlau canolog yn gweithio'n galed i ddarparu cadernid os oes unrhyw swyddi gwag.
- Gofynnodd y panel sut mae CALlau yn nodi pobl sy'n ynysig. Clywyd bod CALlau yn treulio amser mewn lleoliadau cymunedol yn annog pobl i siarad â nhw am unigolion y gallant fod yn bryderus amdanynt, pobl ar eu pennau eu hunain sy'n ynysig ac yn agored i niwed. Yna maent yn gallu creu cysylltiadau a darparu cefnogaeth.
- Lluniwyd ''Arweiniad ar Gydlynu Ardaloedd Lleol yn Abertawe' er mwyn codi proffil ac ymwybyddiaeth o CALl. Holodd y panel ynghylch y gynulleidfa darged ac a oes taflen y gellir ei phostio drwy ddrysau pobl. Clywyd mai'r brif gynulleidfa ar gyfer yr Arweiniad yw aelodau etholedig. Mae taflen sy'n cael ei defnyddio gan bob CALl i gyflwyno'u hunain i bobl yn eu hardaloedd ond meithrin perthnasoedd ag unigolion a gwneud cysylltiadau yw'r rhan hanfodol.

## 8 Papur briffio ar yr Adolygiad Blynyddol o Daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2022/23

Briffiwyd y Panel am hyn gan David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a dywedodd wrth y Panel fod y cynigion wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet. Nid oedd yr adroddiad yn cynnig y dylai'r cyngor rhoi unrhyw daliadau

newydd ar waith ond roedd yn argymell y dylai gynnal ychwanegiad chwyddiannol o oddeutu 10% yn gyffredinol.

9 **Rhaglen Waith 2022-23**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

The meeting ended at 5.35 pm